Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Egwyddorion Goruchwylio Amlasiantaethol



| | | |
|---|---|---|
| Cadarnhawyd gan y Bwrdd<br>Medi 2024 | Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau | Dyddiad Adolygu<br>Medi 2027 |

## Cyflwyniad

Er nad yw sesiynau goruchwylio amlasiantaethol bellach yn cael eu hwyluso gan Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent, mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd pob sefydliad sy'n aelod yn mabwysiadu cyfres o egwyddorion wrth ymgysylltu â staff, naill ai fel rhan o gyfarfod grŵp craidd, drwy sesiwn oruchwylio unigol, neu fel rhan o sesiwn grŵp fyfyriol.

- Mae myfyrio wrth wraidd sgwrs 'beth sy'n bwysig'.
- Mae myfyrio yn rhoi arweiniad drwy sefyllfa gymhleth ac unigryw pob teulu.
- Mae myfyrio yn caniatáu i'r ymarferydd weld ei rôl a'i effaith fel un sy'n helpu, galluogi neu ymarfer.
- Bydd myfyrio fel rhan o ymarfer â theuluoedd yn galluogi dysgu a meddwl am sut i wneud pethau'n well – yn hyn o beth, gall ddod â chanlyniadau gwirioneddol drawsnewidiol, nid yn unig i deuluoedd, ond o ran sut mae person yn datblygu fel ymarferydd.

Mae grŵp cyfoedion cefnogol yn ei gwneud yn haws i ymarferydd gyfaddef teimladau o eiddilwch, dicter, methiant neu fod yn agored i niwed yn bersonol. Mae'n lle diogel i siarad heb fod ofn sgileffeithiau ynghylch heriau a dilemâu ymarfer.

Bydd mynd at wraidd y mater trwy ddefnyddio'r egwyddorion wedi'u nodi isod yn cynorthwyo'r achosion hynny sydd wedi mynd yn "sownd" trwy ddarparu modd i archwilio ffordd bosibl o symud ymlaen.

## Dyma'r egwyddorion i'w mabwysiadu i gynllunio ffordd effeithiol o symud ymlaen:

Bydd y sesiwn oruchwylio unigol neu sesiwn oruchwylio grŵp fyfyriol yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- **Canlyniadau personol/teuluol**
  Sicrhau bod barn gyffredin am ganlyniad. Gallai hyn fod ar y gweill o hyd, a dylai fod yn archwiliad cefnogol gyda'r ymarferydd. Ceisiwch osgoi disgrifiadau neu eiriau generig, er enghraifft, *eisiau bod yn annibynnol neu'n ddiogel* ac ati. Ceisiwch ganfod canlyniad i'r teulu cyfan.
- **Cryfderau: personol, teuluol, amgylcheddol ac ati.**
  Sicrhau bod cyfle i archwilio popeth y mae'r ymarferydd yn ei wybod am y cryfderau yn y rhwydwaith a rhwng y bobl ynddi hi, neu yn y teulu, y cartref a'r gymuned.

- **Risgiau Blaenoriaeth:**
  Sicrhau bod modd canfod beth mae'r person/aelod o'r teulu yn ceisio osgoi digwydd. Caniatáu i'r ymarferydd archwilio'r risgiau blaenoriaeth i les o safbwynt y teulu/person/rhwydwaith. Nodi risgiau blaenoriaeth, a rhoi cynllun ar waith, os oes angen, i fynd i'r afael ag adegau risg uchel.

- **Cynllunio diogelwch**
  Sicrhau dod i gytundeb o ran beth yw'r cynllun i fynd i'r afael â'r risgiau. Pwy sy'n gwneud beth, ble ac ati. Cadarnhau a yw'r cynllun ar gael i bawb dan sylw gan gynnwys gwasanaethau y tu allan i oriau.

- **Camau nesaf**
  Sicrhau bod yr hyn sydd angen digwydd (camau gweithredu) yn cael eu cytuno a'u cofnodi.

- **Cynnydd/Lle rydych chi eisiau bod**
  Sicrhau dod i gytundeb o ran lle rydych chi eisiau bod (mewn un mis, mewn tri mis) a chael amserlenni ar gyfer monitro hefyd.

Mae'n bwysig bod nodiadau a chamau gweithredu'r sesiwn yn cael eu cofnodi yn unol â pholisi cofnodi goruchwylio'r asiantaeth.

Dylai synopsis o'r sesiynau gael eu cofnodi ar ffeil achos y plentyn bob amser, ochr yn ochr ag unrhyw gamau gweithredu wedi'u cytuno.

Dylai copi o'r camau gweithredu gael ei ddosbarthu i'r rhai sy'n bresennol a'i rannu'n ehangach os yw'n briodol, fel rhan o'r trefniadau cynllunio gofal ar gyfer y plentyn.

Yn dilyn y sesiwn, rydyn ni hefyd yn argymell bod yr ymarferydd/ymarferwyr yn cael cyfle i drafod y sesiwn, yn enwedig er mwyn nodi beth oedd yn ddefnyddiol.

Dylai canlyniad a chamau gweithredu pob sesiwn gael eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad cynhadledd achos diogelu plant dilynol a dylai cadeirydd y gynhadledd achos diogelu plant hefyd gael gwybod am y rhain yn unol â diweddariadau'r asiantaeth.

# Siart Llif Goruchwylio Amlasiantaethol

Gallai cais am Oruchwylio Amlasiantaethol gael ei wneud gan unrhyw ymarferydd sy'n ymwneud â'r teulu.

↓

Dylai dyddiad y cyfarfod gael ei gytuno gan y Cadeirydd a'r ymarferwyr. Pan fo modd, dylai hyn fod o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cais cychwynnol.

↓

Dylai'r cronolegau gael eu cwblhau gan yr asiantaethau/ymarferwyr sy'n ymwneud â'r teulu. Mae canllawiau o ran cronolegau ar gael yma [Canllaw Cronoleg Aml-asiantaeth i Blant ac Oedolion - 02.05.23 (gwentsafeguarding.org.uk)]. Dylai pob cynrychiolwr asiantaeth gwblhau ei gronoleg ei hun a ddylai gael ei rhannu â'r Gwasanaethau i Blant.

Yna, dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol gynhyrchu cronoleg amlasiantaethol i gynorthwyo'r gwaith o nodi themâu allweddol, patrymau, cryfderau a meysydd sy'n peri pryder; gall yr amserlen fod yn hyblyg yn dibynnu ar amgylchiadau unigryw pob plentyn ond, fel arfer, ni fydd yn fwy na 12 mis o'r adeg atgyfeirio.

↓

Dylai'r rhai a fydd yn cwblhau'r gronoleg gytuno ar amserlenni clir i'w chwblhau, gyda'r cadeirydd yn ei oruchwylio i sicrhau bod amserlenni yn briodol.

↓

Dylai'r Gweithiwr Cymdeithasol/Gweithiwr Cymorth sy'n rheoli'r achos hefyd ddarparu copïau o'r cynlluniau asesu ac amlasiantaethol mwyaf perthnasol a diweddar a sicrhau bod y rhain ar gael i'r holl ymarferwyr sy'n ymwneud â'r achos. Gallai hyn gynnwys yr Adroddiad Cynhadledd, Cynllun Gofal a Chymorth Diogelu Plant a/neu asesiadau Diogelu Plant.

↓

Dylai'r holl asiantaethau craidd gael eu gwahodd i'r sesiwn oruchwylio [rhai presennol a blaenorol gyda'r wybodaeth berthnasol, gan gynnwys diffyg ymgysylltu]

↓

Yn ystod y sesiwn oruchwylio amlasiantaethol, dylai ymarfer cydbwyso gael ei gynnal â phob parti i nodi cryfderau'r teulu, y risgiau a'r anghenion sy'n parhau, i gytuno ar gynllun gweithredu [gyda dyddiad adolygu]
Dylai'r Cadeirydd grynhoi'r wybodaeth wedi'i rhannu, y pwyntiau dysgu a'r camau gweithredu wedi'u cytuno.

↓

Dylai'r camau gweithredu gael eu dosbarthu o fewn 2 ddiwrnod gwaith a chofnodion i ddilyn o fewn 20 diwrnod gwaith.